# Bwletin y Farchnad HCC

Awst 2021

**Mae CThEM wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU yn ddiweddar ar gyfer 6 mis cyntaf 2021. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.**

**Mae 6 mis cyntaf 2021 wedi wynebu cyfyngiadau Covid sy'n ymwneud â gwasanaeth bwyd mewn sawl gwlad, cyflenwad tynn o wartheg ac wˆyn dethol, a rhai materion logistaidd yn dilyn Brexit. Mae ffigurau a ryddhawyd gan CThEM yn dangos bod y ffactorau hyn wedi cael effaith ar y patrymau masnach a welir yma yn y DU. Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mehefin yn 2021, mae ffigurau Defra yn awgrymu bod cyfanswm lladd gwartheg dethol wedi gostwng 3% ar y flwyddyn, tra bod lladd ŵyn dethol wedi gostwng 8%. O ganlyniad, mae'r cynnyrch sydd ar gael i'w allforio wedi bod yn brin. Mae cau'r sector gwasanaethau bwyd yma yn y DU a thramor wedi newid arferion bwyta defnyddwyr, ac felly bu galw gwannach am nwyddau wedi'u mewnforio. Yn ogystal â'r ffactorau hyn, bu galw mawr am gig coch gan ddefnyddwyr ym Mhrydain, sydd yn anochel wedi effeithio ar y swm sydd ar gael i'w allforio.**

## CIG EIDION

Mae ffigurau CThEM yn dangos mai 61,600 tunnell oedd cyfanswm y cig eidion a **allforiwyd** o'r DU yn ystod 6 mis cyntaf 2021. Mae hyn 31% (neu 27,700 tunnell) yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2020, tra bod gwerth cyfanswm yr allforion wedi gostwng 25% ar y flwyddyn i £185.6 miliwn. O fewn y cyfanswm hwn, gostyngodd nifer y cyfaint cig eidion ffres/wedi'i rewi o 25% ar y flwyddyn i 45,300 tunnell. Gostyngodd swm y cynnyrch ffres/wedi'i rewi oedd yn cael ei anfon i Iwerddon o 17.5% ar y flwyddyn i 14,150 tunnell – er mai Iwerddon yw'r prif gyrchfan ar gyfer allforion cig eidion o hyd. O'r prif farchnadoedd eraill; Ffrainc oedd yr unig gyrchfan i gofnodi cynnydd blwyddyn ar flwyddyn o ran cyfaint wrth i 900 tunnell ychwanegol gael ei hanfon i'r farchnad Ffrangeg. Dylid nodi bod y gostyngiad mewn allforion yn dod tra bod y DU yn profi llai o gyflenwad o wartheg, ynghyd â galw cadarn am gig eidion mewn trefniadau manwerthu a masnachu newydd gyda'r UE yn dilyn Brexit – ac mae pob un o'r rhain yn cael effaith ar gyfaint yr allforion cig eidion ar hyn o bryd.

Cyfanswm y cig eidion a **fewnforiwyd** i'r DU yn ystod y 6 mis oedd 125,400 tunnell - sef bron 13% yn is na lefelau blwyddyn yn gynharach, tra bod gwerth mewnforion wedi gostwng 2% i £507.6 miliwn. O edrych ar fewnforion ffres/wedi'u rhewi, gostyngodd y cyfaint bron i 10% ar y flwyddyn i 100,000 tunnell, tra bod gwerth yn parhau'n gymharol sefydlog (i fyny 0.1%). Fel y disgwylid, Iwerddon oedd y prif allforiwr ac roedd yn cyfrif am bron i 80% o'r holl ddanfoniadau, er gwaethaf ffigurau sy'n dangos bod cyfaint y cig eidion o Iwerddon wedi gostwng bron i 12% ar y flwyddyn. Rhagwelwyd llai o fewnforion o gig eidion o Iwerddon oherwydd cyflenwadau tynn yn Iwerddon, gyda ffigurau Bord Bia yn awgrymu bod y trwybwn gwartheg presennol tua 7% ar ei hôl hi ar y llynedd. O'r prif allforwyr eraill, gwelodd Gwlad Pwyl a'r Iseldiroedd ostyngiad yn y cyfeintiau oedd yn cael eu cludo i'r DU – i lawr 1.6% a 13.2%, yn y drefn honno.

## CIG DEFAID

Rhwng mis Ionawr a mis Mehefin, cyfanswm y cig defaid a **allforiwyd** o'r DU oedd 30,500 tunnell – bron 25% yn llai na'r cyfnod cyfatebol yn 2020, tra bod cyfanswm y gwerth wedi gostwng 5% i £185.7 miliwn. Gostyngodd nifer y cynnyrch ffres/wedi'i rewi 24% ar y flwyddyn i 29,000 tunnell, tra bod gwerth wedi gostwng 4%. Ynghyd â phrisiau gât y fferm uchel y DU sy'n golygu bod cynnyrch y DU yn llai cystadleuol ar y farchnad fyd-eang, mae'r gostyngiad mewn cynhyrchiant wedi arwain at allforion cyfyngedig, ynghyd â threfniadau masnach newydd yn dilyn Brexit. O'r cynnyrch ffres/wedi'i rewi a allforiwyd hyd yma, roedd 89% o'r allforion i farchnadoedd o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae allforion i Ffrainc wedi aros yn gymharol sefydlog ar y flwyddyn (cyfaint i lawr 1.4%), tra bod danfoniadau i'r Almaen wedi gostwng 16% yn ystod y cyfnod o 6 mis. Gan fod y cyflenwad ar ei uchaf fel arfer yn ystod hanner olaf y flwyddyn, disgwylir y bydd masnach yn gwella – ond gall prisiau gât y fferm cryf parhaus effeithio ar gyfeintiau allforio, yn enwedig i farchnadoedd sy'n sensitif i brisiau.

Cyfanswm y cig defaid a **fewnforiwyd** i'r DU ar gyfer hanner cyntaf 2021 oedd 31,700 tunnell – gostyngiad o 6,100 tunnell (neu 16%) ar lefelau blwyddyn yn gynharach. Gwelwyd cynhyrchion ffres/wedi'u rhewi ostyngiad o 17% ar y flwyddyn i gyfanswm o 27,700 tunnell, gyda thros 90% o'r categori hwn yn cael ei fewnforio o wledydd y tu allan i'r UE. Seland Newydd oedd yr allforiwr mwyaf o gig ffres/wedi'i rewi, ond gostyngodd danfoniadau o Seland Newydd 15% ar y flwyddyn i 20,200 tunnell. Er y gallai fod angen mewnforion tymhorol i fodloni'r galw am gig defaid yn y DU yn llawn, rhagwelir y bydd y cyfeintiau yn parhau i fod yn wan o Seland Newydd ac Awstralia wrth i'r ddau barhau i ailadeiladu eu diadelloedd.

## PORC

Gostyngodd cyfanswm y porc a **allforiwyd** rhwng mis Ionawr a Mehefin 5% i 177,600 tunnell o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Profodd gwerth allforion ostyngiad ymylol ar lefelau blwyddyn yn gynharach (i lawr 1%) i gyfanswm o £304.7 miliwn. Cofnododd nifer y cynnyrch ffres/wedi'i rewi a allforiwyd yn y gostyngiad mwyaf flwyddyn ar flwyddyn (i lawr bron i 18% i 101,900 tunnell), tra bod 16,400 tunnell ychwanegol o offal wedi cael eu hallforio yn ystod y cyfnod o 6 mis. Mae allforion wedi bod yn gwanhau er gwaethaf cynnydd cyffredinol o 9% mewn cynhyrchu porc yn ystod y cyfnod – yn bennaf oherwydd digon o gyflenwad ar farchnad yr UE, ynghyd â gostyngiad mewn gofynion mewnforio o Tsieina. Gostyngodd nifer y porc ffres/wedi'i rewi a allforiwyd i Tsieina yn ystod y cyfnod o 13% (neu 7,300 tunnell) ar y flwyddyn, ond mae'r farchnad Tsieineaidd yn parhau i dderbyn bron i hanner y cynnyrch ffres/wedi'i rewi sy'n cael ei allforio o'r DU.

Gostyngodd cyfanswm y **mewnforion** porc yn ystod y cyfnod o 6 mis o 13% o ran cyfaint i 335,300 tunnell, tra bod gwerth wedi gostwng o 15% i £971.5 miliwn. Gostyngodd nifer y cynhyrchion ffres/wedi'u rhewi 17% ar y flwyddyn, tra bod porc wedi'i brosesu (sy'n cynnwys bacwn a selsig) yn cyfrif am dros 50% o'r cyfeintiau a fewnforiwyd i'r DU.

**Noder:** *mae 'cyfanswm cig eidion/cig oen/porc' yn cynnwys cynhyrchion ffres, wedi'u rhewi, eu prosesu ac offal.*

**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**







## GWARTHEG

Roedd pris cyfartalog gwartheg dethol y farchnad yng Nghymru a Lloegr yn 236.0c/kg am yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Gorffennaf – i fyny 4.2c ar yr wythnos. Mae'r pris presennol yn parhau i fod yn gryf o'i gymharu â chyfartaleddau hanesyddol, ac mae bron 38c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a 45c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 191.3p/kg). Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 4 Awst, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 405.7c/kg (i fyny 0.3c ar yr wythnos) sydd 39c yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod oedd 403.5c/kg (+0.3c ar yr wythnos), teirw ifanc oedd 398.3c/kg (+1.2c), a gwartheg difa ar 290.9c/kg (+0.2c).

Roedd cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU yn 218,400 pen ar gyfer mis Gorffennaf – i lawr 10.6% ar Orffennaf 2020, a 2.2% yn is na'r mis cyfatebol yn 2019. Roedd y trwybwn gwartheg dethol ar gyfer y mis wedi gostwng 9.8% ar y flwyddyn, sef 162,200 pen, gyda'r trwybwn bustych i lawr 9.6% ar y flwyddyn, heffrod i lawr 8.1%, a teirw ifanc i lawr 15.5%. Roedd trwybwn y gwartheg llawn-dwf wedi gostwng 13.8% ar y flwyddyn ar 51,500 pen. O ganlyniad i'r cyflenwad tynn, roedd cyfanswm y cig eidion ar gyfer mis Gorffennaf wedi gostwng 10.1% ar y flwyddyn. Wrth edrych ar y 7 mis cyntaf eleni, mae cyfanswm trwybwn o wartheg i lawr 5% ar y flwyddyn cynt.

**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**







## DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae SQQ pwysau byw ŵyn dethol ar gyfartaledd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi bod gogwyddo'n nes at y lefelau a welwyd y llynedd. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Awst, gostyngodd y cyfartaledd 0.6c ar yr wythnos i sefyll ar 231.9c/kg. Mae hyn 30.5c yn uwch na lefelau blwyddyn gynharach, a 49c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 183.3c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ar gyfartaledd yn £66.90/ pen – gostyngiad o £2.30 ar yr wythnos flaenorol, ond £11.40 yn uwch na lefelau blwyddyn ynghynt. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 515.8c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 14 Awst (+47.5c ar y flwyddyn).

Cyfanswm trwybwn defaid yn lladd-dai'r DU oedd 1,194,900 pen ar gyfer mis Mehefin – i lawr 17.4% ar y flwyddyn. O fewn hyn, roedd y trwybwn cig oen wedi gostwng 16.1% ar 1.1 miliwn pen (y trwybwn misol uchaf hyd yma eleni). Er bod cynnydd misol yn y cyflenwad, roedd pwysau carcas cyfartalog ar ei ysgafnaf hyd yma eleni, sef 19.6kg. Cynyddodd niferoedd mamogiaid a hyrddod difa hefyd ar fisoedd blaenorol, er bod y niferoedd wedi gostwng bron i 28% ar y flwyddyn. Gostyngodd cyfanswm y cig dafad a gynhyrchwyd yn ystod mis Gorffennaf 17.0% ar y flwyddyn i 24,200 tunnell – sef y swm misol uchaf a gynhyrchwyd hyd yma yn 2021.

**Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**







## MOCH

Mae prisiau moch wedi bod yn cofnodi cynnydd o wythnos i wythnos ers sawl mis bellach, ond mae'r patrwm hwn wedi arafu yn ystod yr wythnos ddiweddaraf. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 7 Awst, gostyngodd Pris Mochyn Cyfan (APP) manyleb yr UE o 0.4c ar yr wythnos flaenorol i 165.4c/kg. Mae'r bwlch rhwng eleni a phrisiau uchel y llynedd wedi parhau i leihau, gyda'r cyfartaledd presennol ond 1.4c yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r pris presennol hefyd 9.4c yn uwch na'r cyfartaledd o 5 mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 155.9c/kg). Awgryma adroddiadau'r diwydiant y bu'r galw cynyddol o'r marchnadoedd allforio oherwydd y galw gan ddefnyddwyr yn yr UE.

Cyfanswm y trwybwn moch yn lladd-dai'r DU oedd 961,400 pen ar gyfer mis Gorffennaf – gostyngiad o 3.1% ar y flwyddyn, ond 3.8% yn uwch na mis Gorffennaf 2019. Gostyngodd trwybwn moch heb fagu 3.1% ar y flwyddyn i 939,700 o'r pen, tra bod eu pwysau carcas cyfartalog yn 86.7kg. Gostyngodd trwybwn hychod a baeddod 2.5% ar y flwyddyn, tra bod eu pwysau carcas cyfartalog bron 1kg yn drymach na lefelau blwyddyn yn gynharach, sef 144.7kg. Arweiniodd y cyfuniad o drwybwn is at ostyngiad o 2.3% yng nghynhyrchiant porc yn ystod mis Gorffennaf, sef 84,600 tunnell – fodd bynnag, mae cynhyrchiant yn parhau i fod wedi codi o'i gymharu â lefelau hanesyddol.